

Mae holl amrywiaeth Llŷn a'i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'i gynnwys yn y daith hon. Ceir yma lwybrau arfordirol - gogledd a de - y penrhyn; dringfa raddol ar hyd llethrau Mynydd Anelog sy'n cynnig golygfeydd gwych a phanoramig, a dychwelyd drwy gaeau amaethyddol ac ar hyd cwm bychan Afon Daron.

Manylion y daith

Amcan o hyd: 15 km/9.3 milltir.

Amcan o'r amser: 5 awr.

Map AO: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

Man cychwyn/gorffen: Maes Parcio Aberdaron, SH172 264.

Mynediad a chyfleusterau

Parcio: Maes Parcio Aberdaron, lle i 80 car; byrddau gwybodaeth (tâl os nad yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol), LL53 8BE.

Bws: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toiledau: Aberdaron (wrth y bont).

Lluniaeth: Digon o ddewis yn Aberdaron - gwetai Tŷ Newydd a'r Ship; caffis/tai bwyta/cegin pítsa (rhai o'r rhain yn dymhorol).

Nodwch

- Does dim darnau anodd ar y daith hon, ond mae'r llwybr yn codi'n raddol ar hyd Mynydd Anelog.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Còd Cefn Gwlad:
Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch
naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf

10 Cylchdaith Aberdaron



Mannau o ddiddordeb

Mae **Aberdaron** ① yn bentref deniadol gyda'i draeth, ei dai bwyta, ei siopau cynnyrch lleol a'i dai a phontydd llawn cymeriad. Mae'n werth galw ym Mecws Islyn, gyda'i do gwellt, nid yn unig am fara a danteithion cartref, ond i fwynhau'r lluniau a'r mapiau a'r darnau o dreftadaeth sy'n addurno waliau'r caffi. Adeilad hynafol a diddorol yw'r Gegin Fawr, hen dafarn y pererinion.

Galwch heibio **Eglwys Aberdaron** ② - Eglwys Hywyn Sant sy'n llythrennol ar y traeth a'r ddolen olaf yng nghadwyn Llwybr y Pererinion oedd ar eu ffordd i Enlli. Yn ogystal â bod yn eglwys fyw, yn hanesyddol gyda'i phensaerniaeth arbennig, mae hon hefyd yn ganolfan treftadaeth gydag arddangosfeydd diddorol yn olrhain hanes y pererinion a'r cysylltiad gydag Ynys Enlli. Bu'r bardd R. S. Thomas yn ficer yma (1967-78) ac mae arddangosfa yn dathlu'i gyfraniad yma.

Yn y maes parcio, gwelir **Porth y Swnt** ③. Canolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw hon, sy'n cynnig profiad o natur a threftadaeth yr ardal.

Hafan gysgodol yn wynebu'r de yw **Porth Meudwy** ④ a dyma'r man traddodiadol i ddal cwch am Enlli. Ar ben hynny, mae'n harbwr prysur i bysgotwyr a chimychwyr y glannau hyn sy'n codi'r cynnyrch lleol y mae galw mawr amdano.

O lwybr Anelog byddwch yn gweld **Ynys Enlli** ⑤. Dyma ynys yr hen fyneich a'r seintiau Celtaidd a chanolfan dreftadaeth awyr agored sy'n gyfuriog hefyd o hanesion am yr hen ynyswyr a'u ffordd o fyw. Gellir cael teithiau am y diwrnod i'r ynys drwy gysylltu â Colin Evans, cychwr Enlli (07971 769895; www.bardseyboattrips.com).

Traeth braf gyda'i faes parcio ei hun (eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yw **Porthor** ⑥. Enwog am ei longddrylliadau a'i draddodiad smyglo!

Allan yn y bae mae **Ynsoedd Gwylan** ⑦ ac ar olau arbennig, gellir gweld i lawr ar hyd Fae Ceredigion hyd at sir Benfro. Mae adar mudol yn galw heibio trwyn y pentir yn eu gwahanol dymhorau ac mae morloi i'w gweld yma'n gyson.



Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Gellir cyrraedd y llwybr ar hyd ben rallt i Borth Meudwy o ben pella'r maes parcio - y pen agosaf at y traeth. O Borth Meudwy, dilynwch y nant fechan ar hyd ffordd drol i fyni'r dyffryn at fferm Cwrt. Oddi yno ewch ar draws y caeau, drwy ran o Uwchmynydd ac yna dringo llethrau Mynydd Anelog. Yr ochr draw i'r mynydd, trowch i'r dde gan gerdded ar hyd ben rallt, tua Mynydd Carreg ac ymlaen wedyn nes cyrraedd Traeth Porthor. Troi am y tir yma, gan gerdded drwy'r maes parcio, troi i'r dde a dilyn y ffordd am ychydig cyn troi i'r chwith ar hyd ffordd drol. Pan ddowch at ffordd wledig arall, troi i'r dde am Cyll y Felin, ar draws croesffordd ac yna i'r chwith gan dychwelyd i'r pentref drwy gefn gwlad braf ac ar hyd dyffryn cul yr afon at hen felin Aberdaron.

